## Trosolwg TXGB

- Mae TXGB yn farchnad ddigidol ganolog sy'n galluogi cyflenwyr twristiaeth i gontractio a chysylltu eu cynnwys, eu hargaeledd a'u prisio gydag ystod amrywiol o ddosbarthwyr ar yr un pryd a rheoli hyn mewn un lle.

- Datblygwyd TXGB (Twristiaeth Exchange Great Britain - Cyfnewidfa Twristiaeth Prydain Fawr) mewn partneriaeth â VisitEngland drwy Gronfa Ddarganfod Lloegr, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r dirwedd ddosbarthu twristiaeth dameidiog. Mae bellach ar gael i wledydd eraill y DU, ac mae Croeso Cymru/Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â Tourism Northern Ireland wedi prynu trwyddedau i hwyluso mynediad i'w cyflenwyr twristiaeth priodol; mae VisitScotland ar gam caffael i hwyluso mynediad i'w cyflenwyr.

- Mae TXGB yn caniatáu i ddosbarthwyr - gan gynnwys Sefydliadau Marchnata Cyrchfannau (Destination Marketing Organisations - DMOs) - gael mynediad i ystod eang o gynnyrch twristiaeth y gellir ei archebu mewn un lle.

- Mae TXGB yn caniatáu i gyflenwyr allu cael eu harchebu ar ystod eang o sianeli dosbarthu (gan gynnwys gweithredwyr arbenigol a phrif ffrwd, cyrchfannau ac Asiantaethau Teithio Ar-lein (Online Travel Agents - OTAs). Nid oes tâl cysylltu a gallant reoli eu dosbarthiad i gyd mewn un lle.

- Gall cyflenwyr gysylltu â TXGB gyda system archebu sy'n bodoli eisoes, system rheoli eiddo, rheolwr sianel neu drwy'r offeryn llwytho rhestr am ddim. Os gwneir newidiadau i'ch busnes, bydd TXGB yn diweddaru i'r holl sianeli cyflenwi a ddewiswyd.

- Mae TXGB hefyd yn galluogi cyflenwyr a dosbarthwyr nad ydynt yn masnachu ar-lein i ddechrau gwneud hynny'n gyflym ac yn hawdd, neu os nad oes gennych wefan, dolen i dudalennau archebu ar-lein o'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol neu e-gylchlythyron.

- Bydd mynediad at ddata drwy'r dangosfwrdd ar archebu data ar gyfer pob sianel ddosbarthu TXGB a thueddiadau teithio ar gael i ddeall cwsmeriaid a rheoli archebion yn fwy effeithiol.

- Dewis i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd penodol am ddim ochr yn ochr â brandiau byd-eang sefydledig. Er enghraifft, defnyddiwyd TXGB fel llwyfan ar gyfer gwerthu a phrynu cynhyrchion twristiaeth o amgylch Cwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair 2021, ac i gyflenwi cynnyrch atyniadau ar gyfer ymgyrch Diwrnodau Allan y Loteri Genedlaethol sy'n cael ei chyflwyno gyda VisitBritain.

- Oherwydd y buddsoddiad gan Croeso Cymru/Llywodraeth Cymru, mae'n rhad ac am ddim i gysylltu busnesau twristiaeth Cymru â'r platfform TXGB. Bydd cyflenwyr yn talu ffi comisiwn o 2.5% ynghyd â chomisiwn eich dosbarthwr dewisol.

**Gwyliwch fideo hyrwyddo TXGB yma**